

Dewis Cartref Gofal



Os byddaf angen help, beth ddylwn ei wneud?

Efallai eich bod wedi cyrraedd amser yn eich bywyd lle na theimlwch y medrwyh ymdopi mwyach heb gymorth yn eich cartref eich hunan. Eich cam cyntaf ddylai fod i gysylltu â ni i drafod eich anghenion. Bydd gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â chi a'ch gofalydd (os oes gennych un) i asesu eich anghenion, a thrafod y dewisiadau sydd ar gael i chi.

Pa fath o ofal wyf i eisiau?

Os oes angen i chi ystyried symud i gartref gofal, mae dau fath, y ddau wedi cofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC):

- Gofal preswyl: Byddai'r gofal a ddarperir mewn gofal preswyl yn debyg i'r gofal a roddir gan berthynas neu gyfaill gofalgar, gyda chefnogaeth gan eich meddyg teulu neu ardal nyrso, os oes angen.
- Gofal nyrso: Byddai cartref nyrso yn darparu gofal na fedrir ond ei roi dan sylw staff nyrso gyda chymwysterau.



Sut mae dod o hyd i gartref gofal?

Medrwn ddarparu rhestr o'r holl gartrefi gofal cofrestredig yn eich ardal, neu medrech chi/a neu eich teulu ddod o hyd i gartref drwy Age Cymru, argymhellion pobl eraill neu'r cyfeiriadur ffôn.

Beth sydd angen i mi wneud nesaf?

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dod o hyd i gartref sy'n ateb eich anghenion. Os yn bosibl, ymwelwch â nifer o gartrefi addas gyda'ch teulu a'ch ffrindiau, a siarad gyda staff a phobl yn byw yn y cartref.

Caiff yr holl gartrefi eu harolygu'n rheolaidd gan AGGCC ac mae eu hadroddiadau ar gael i'r cyhoedd. Gofynnwch i'r cartref am weld copi o'r adroddiad diweddaraf, neu gael copi eich hunan o wefan AGGCC: www.aggcc.org.uk

Medrech hefyd ddymuno cyfnod prawf i weld yn y cartref i weld os mai dyma'r un iawn i chi.



A fedraf ddewis pa gartref i fynd iddo?

- Os ydych yn talu am eich lleoliad eich hun, medrwyd ddewis pa bynnag gartref a ddymunwch. Os ydych mewn ysbyty bydd angen i chi ddewis cartref sydd â lleoedd gwag. Os nad y cartref yma yw eich dewis cyntaf, efallai y bydd modd i chi drefnu symud yn nes ymlaen pan ddaw lleoedd gwag ar gael.
- Os caiff eich lleoliad ei gefnogi gan y gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i chi fod wedi cael eich asesu fel bod angen lleoliad cartref gofal.
- Gofynnir i chi ddewis tri chartref, ac mae'n rhaid i un ohonynt fod â lle gwag (gall fod yn bosibl i chi symud l'ch dewis cyntaf pan ddaw lle yn wag yn nes ymlaen).
- Os ydych mewn ysbyty cyn symud i gartref, disgwylir i chi wneud trefniadau eraill os nad yw'ch dewisiadau o gartref ar gael. Cewch eich helpu i ganfod lle arall, ac i symud i un o'r cartrefi a ffafriwch pan ddaw lle yn wag.

Sut fyddaf yn talu am fy ngofal?

Disgwylir i chi wneud cyfraniad ariannol tuag at gost eich gofal. Cewch asesiad ariannol ar yr un pryd ag asesiad gofal a chewch eich hysbysu ar eich cyfraniad. Bydd yr Awdurdod Lleol yn talu hyd at lefel ffi a gytunwyd. Gall fod yn bosibl i chi symud i gartref drutach os oes gennych rywun arall sy'n barod i gyfrannu'r gost ychwanegol. Medrwyd drafod hyn gyda'ch gweithiwr cymdeithasol. Os ydych angen gofal nyrsio, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn telu am elfen nyrsio y gofal, a chewch eich asesu ar gyfer hynny gan Nyrs Asesydd.

Sut i gysylltu â ni

Os dymunwch drafod hyn ymhellach, cysylltwch â ni yn:

C2BG
Swyddfeydd Bwrdeisiol
Y Ganolfan Ddinesig
Glyn Ebwy
Gwent
NP23 6XB

Ffôn: (01495) 315700

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn Braille, print bras, yn electronig neu ar dâp sain cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth ar (01495) 354630 os gwelwch yn dda.

Taflen AS001-3 Ebrill 2016
www.blaenau-gwent.gov.uk